## LLWYBR RHIENI

Mae plentyn, rhiant, gofalwr, ysgol neu weithiwr proffesiynol arall yn mynegi pryder am ADY

Mae'r ysgol yn pennu Cydlynydd Dynodedig

Cesglir gwybodaeth am y plentyn gan y rheiny sy'n ei adnabod orau

Caiff yr holl wybodaeth a gasglwyd ei rhannu a'i thrafod yn y cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

A oes gan y plentyn ADY sy'n gofyn am ddarpariaeth sy'n ychwanegol at yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd neu sy'n wahanol iddo?

**OES**

Caiff CDU ei lunio gyda chi, eich plentyn a'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol

- Os nad oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r CDU, bydd yr ysgol yn ei gynnal ac yn ei adolygu bob blwyddyn
- Os nad ydych yn hapus gyda chynnwys y CDU siaradwch â'ch cydlynydd dynodedig gyda golwg ar ddatrys y broblem

**NAC OES**

Bydd yr ysgol yn parhau i gefnogi eich plentyn ac yn dweud wrthych sut y bydd yn gwneud hyn

Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad yr ysgol o hyd, cysylltwch â Llinell Gymorth ADY yr Awdurdod Lleol

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

GWYBODAETH I RIENI / GOFALWYR

# Canllaw ar y Broses ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL mewn Ysgolion

Mae Cyngor Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, gofalwyr, ysgolion a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth. Nod y canllaw hwn i rieni/gofalwyr yw cynnig gwybodaeth am gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).



UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION
CARDIFF CAERDYDD

ADYTA: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018 Fframwaith cyfreithiol newydd sy'n newid y ffordd y mae disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi.

## Beth yw Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)?

Efallai y bydd gan blentyn ADY pan fydd yn cael llawer mwy o anhawster wrth ddysgu na'i gyfoedion neu os oes ganddo anabledd sy'n effeithio ar ei fynediad i addysg. Mae plant gydag ADY angen cefnogaeth sy'n wahanol i'r hyn y mae ysgolion yn ei gynnig fel arfer neu sy'n ychwanegol ato. Enw'r gefnogaeth ychwanegol yw Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol neu DDdY. Gall y broses o benderfynu a oes gan blentyn

## Cydlynydd Dynodedig

Byddwch yn cael enw a manylion cyswllt rhywun yn yr ysgol a fydd yn eich cefnogi chi a'ch plentyn drwy'r broses ADY gyfan.

## Beth sy'n digwydd mewn Cyfarfod sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn?

Byddwch chi a'ch plentyn yn cael eich gwahodd i'r ysgol i fynd i gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Gofynnir i bobl eraill sy'n adnabod eich plentyn gan gynnwys athrawon, athrawon arbenigol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd proffesiynol fynd i'r cyfarfod neu anfon adroddiadau i gyfrannu eu barn. Gyda'ch gilydd byddwch yn trafod eich plentyn ac yn penderfynu a oes ganddo ADY sy'n gofyn am DDdY.

## Beth yw Cynllun Datblygu Unigol (CDU)?

Os oes gan eich plentyn ADY bydd CDU yn cael ei baratoi ar sail y wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae CDU yn gynllun y cytunwyd arno sy'n nodi sut y caiff eich plentyn gydag ADY ei gefnogi a chan bwy. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr ysgol yn paratoi ac yn adolygu CDU.
Bydd CDU yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol (enw, oedran, cyfeiriad ac ati)
- Proffil Un Dudalen sy'n amlygu'r hyn sy'n bwysig i'ch plentyn a'r ffordd orau y gall yr ysgol ei gefnogi a bodloni ei anghenion
- Yr hyn y bydd yr ysgol yn ei ddarparu sy'n wahanol i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd neu sy'n ychwanegol ato (DDdY).

## Adolygu CDU

Rhaid adolygu'r CDU cyn pen 1 flwyddyn galendr ond gellir ei adolygu'n gynharach os bu newid sylweddol o ran amgylchiadau. Bydd y cyfarfod adolygu yn dilyn fformat tebyg i'r cyfarfod cyntaf.

## Anghytundebau

Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch cynnwys y CDU, siaradwch â'ch Cydlynydd Dynodedig yn y lle cyntaf, a bydd yn gallu eich helpu. Os na allwch ddatrys eich pryderon neu eich problemau, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ADY.

Os yw'r anghytundeb yn ymwneud ag asesiad, triniaeth neu wasanaeth y GIG, dylech siarad â'ch darparwr iechyd yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw anghytundeb heb ei ddatrys, ewch i dudalen Gweithio i Wella y wefan www.wales.nhs.uk

## Eiriolaeth

Gellir cael help gan eiriolwr. Mae eiriolwr yn rhywun a fydd yn mynd i gyfarfodydd gyda chi ac yn siarad ar eich rhan. Gall fod yn ffrind, yn aelod o'ch teulu neu o asiantaeth broffesiynol. Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch, cysylltwch â SNAP Cymru.

**0808 801 0608**
**enquiries@snapcymru.org**
**www.snapcymru.org/contact/?lang=cy**

## Gwybodaeth a Chyngor

I gael unrhyw wybodaeth am ADY neu CDUau, cysylltwch â'r Llinell Gymorth ADY:

**029 2087 2731**
**LlinellgymorthADY@caerdydd.gov.uk**

## Cyswllt a Gwybodaeth

TAC: www.tribiwnlysanghenionaddysgolarbennig.llyw.cymru
Llywodraeth Cymru: www.llyw.cymru